

**From:** Cefin Campbell  
**Sent:** 02 March 2016 11:23  
**To:** Thomas, Branwen (EPS - WLD)  
**Cc:** Penri, Awen (EPS - WLD)  
**Subject:** RE: ATB/RE: Pwyntiau trafod i'r cyfarfod

<<Doc 3a>> <<Doc 3b>>

Annwyl Branwen/Awen,

Diolch yn fawr i chi am y cyfarfod buddiol iawn wythnos diwethaf ac am y dolenni isod at ddogfennau a ffynonellau data defnyddiol. Er gwybodaeth, mae 8 holiadur wedi eu dychwelyd eisoes a 3 ar y ffordd. Rwyf wedi anfon nodyn atgoffa at y lleill gan obeithio cael ymateb wrthynt cyn diwedd yr wythnos.

Yn ôl yr addewid, amgaeaf gopi o'r holiadur gafodd ei anfon at y colegau ynghyd â Datganiad Cyfrinachedd yr hoffwn i chi ei arwyddo a'i ddychwelyd ataf.

Diolch yn fawr i chi am bob cydweithrediad.

Cofion.

*Cefin.*

**From:** [Branwen Thomas](#)  
**Sent:** 01 March 2016 10:54  
**To:** Cefin Campbell  
**Cc:** Penri, Awen (EPS - WLD)  
**Subject:** ATB/RE: Pwyntiau trafod i'r cyfarfod

Annwyl Cefin

Yn dilyn ein sgwrs yr wythnos diwethaf amgaeaf y dogfennau y gwnaethoch ofyn amdanynt, sef:

1. LA26 – cofnod yn LLWR lle cofnodir gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y colegau addysg bellach.  
<http://gov.wales/docs/dcells/publications/151208-llwr-xml-manual-2016-17-v1-en.pdf>  
tudalen 9 – clicio ar LA26 ar gyfer y diffiniadau newydd ddaeth i rym ar gyfer y flwyddyn addysgol 2014-15
2. LA26 – yr hen gofnod – sef yr un fydd yn berthnasol i'r data fydd wedi ei gyhoeddi hyd yn hyn ar gyfer y colegau addysg bellach.  
(atodiad uchod)
3. Ystadegau 2012-13; 2013-14 sy'n nodi pa gyrsiau y cofnodir myfyrwyr sy'n astudio arnynt a'u niferoedd (LA26 Tier 2 WM mewn atodiadau), yn ôl y ddogfen LA26 (Word).

4. Llythyr y Gweinidog Addysg a Sgiliau i'r Colegau Addysg Bellach  
<http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/post-16-planning-and-funding/planning-and-funding-2016-to-2017/?skip=1&lang=cy>

5. Tudalennau ar adnoddau gofal a ddatblygwyd gan ColeguAymru gyda chymorthdal LIC  
<http://gofal.colegaucymru.ac.uk/cy/>

Gobeithio fydd hyn o fudd wrth gynnal yr ymchwil.

Cofion  
Branwen

[Branwen Thomas](#)

**From:** Cefin Campbell  
**Sent:** 22 February 2016 16:09  
**To:** Penri, Awen (EPS - WLD); Thomas, Branwen (EPS - WLD)  
**Subject:** Pwyntiau trafod i'r cyfarfod

Annwyl Awen/Branwen,

Diolch yn fawr i chi am gyuno i gwrdd â fi ddydd Mercher am 2.00 y.p i drafod sefyllfa'r Gymraeg yn y sector addysg bellach.

Wele isod cwpwl o bwyntiau yr hoffwn eu trafod gyda chi:-

- Eich barn gyffredinol am sefyllfa gyfredol addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn ein colegau addysg bellach
- Effeithiolrwydd y colegau o ran asesu'r angen, cynllunio a darparu ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog?
- I ba raddau mae'r colegau'n gyffredinol yn sicrhau cynnydd?
- Beth yw cryfderau a diffygion y maes cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd?
- Beth yw'r heriau mwyaf o safbwynt ehangu'r ddarpariaeth dros y blynyddoedd nesaf?
- Oes modd adnabod rhwystrau penodol rhag datblygu'r cyfrwng ymhellach e.e – y gweithlu, cyllid, cyrff dyfarnu, gwahaniaethau daearyddol, diffyg hyrwyddo/marchnata ac ati?
- Enghreifftiau o arfer da a meysydd sydd angen eu gwella?
- Sefyllfa'r Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd/Rheolwyr yr Iaith Gymraeg a'u heffaith ar y twf diweddar?
- Beth yw system y colegau o ran casglu data – oes cysondeb yn y dulliau o gofnodi?
- Sut mae'r colegau yn medru dangos cynnydd yn y ddarpariaeth?
- Oes gan y llywodraeth ddata ar bob cwrs cyfrwng Cymraeg/dwyieithog fesul coleg sy'n nodi niferoedd a chanrannau?
- Ydy'r llywodraeth yn gosod targedau penodol ar gyfer pob coleg o ran cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg?
- Mae'r llywodraeth wedi nodi wyth maes blaenoriaeth i'r sector – a ydy hi'n fwriad cyhoeddi adroddiad ar bob maes blaenoriaeth yn unigol?
- I ba raddau mae'r colegau'n rhannu adnoddau Cymraeg ymhlith ei gilydd?

Er gwybodaeth, rwyf wedi anfon holiadur i bob coleg yn gofyn iddynt am ddata ar niferoedd a chanrannau sy'n dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog dros y tair blynedd

ddiwethaf. Rwy'n gobeithio y bydd pob coleg yn ymateb yn gadarnhaol, fodd bynnag pe bai bylchau yn yr wybodaeth, a fyddai modd i mi gael y data hwn gan y llywodraeth?

Gan edrych ymlaen at eich cyfarfod ddydd Mercher.

Cofion.

*Cefin.*

**Cefin Campbell**  
Rheolwr Gyfarwyddwr/*Managing Director*  
Sbectrum